**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

12 Tachwedd 2015

Annwyl Jane

**Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel rhan o'i waith etifeddiaeth.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 - Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith ym mis Mai 2015. Wrth ystyried goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y gyllideb, gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad, felly byddem yn awyddus i gael papur gennych yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ynghylch:

- y gwaith a wnaed i sicrhau bod y dangosyddion llesiant a phenawdau'r gyllideb yn cyd-fynd â'i gilydd lle bo modd; a'r
- ystyriaeth a roddwyd i sut y gellir cysylltu allbwn allweddol wedi'i dargedu neu fesurau cyflenwi â dyraniadau yn y gyllideb fel rhan o broses y gyllideb.

Mewn perthynas â chysylltu allbynnau at ddyraniadau yn y gyllideb, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth ystyried cynnal cynlluniau peilot mewn un neu ddau o feysydd portffolio Gweinidogol cyn ei gyflwyno ledled y sector cyhoeddus

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

yng Nghymru. Felly, mae gan y Pwyllgor hefyd ddiddordeb yn sut y mae hynny wedi datblygu.

Byddai'r Pwyllgor yn falch pe baech yn gallu mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor i lywio'r adroddiad etifeddiaeth yr ydym yn gweithio arno. Rwy'n deall eich bod ar hyn o bryd yn cynnal dau ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol a'r canllawiau statudol drafft, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni pryd fyddai'r amser gorau ar gyfer y sesiwn hon, i sicrhau eich bod yn gallu darparu'r manylion mwyaf perthnasol. Os ydych yn cytuno, a fyddech cystal â chysylltu â Tanwen Summers, Dirprwy Glerc y Pwyllgor (seneddfinance@cynulliad.cymru) ar 0300 200 6386 i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir



**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**